Sgiliau i Ewrop

Y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd

Mae'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd yn eich helpu i ddeall lefelau cymwysterau dramor.

Ei nod yw cysylltu systemau cymwysterau cenedlaethol gwahanol wledydd mewn fframwaith cyfeirio cyffredin Ewropeaidd, gan wneud cymwysterau cenedlaethol yn fwy darllenadwy ledled Ewrop.

Beth gall wneud i ddysgwyr, gweithwyr a cheiswyr gwaith

Gallwch gymharu eich cymwysterau â rhai ar yr un lefel mewn gwlad arall. Ewch i **wefan y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd** a dechreuwch drwy ddewis eich fframwaith cenedlaethol eich hun.

Beth gall wneud i gyflogwyr, a staff mynediad colegau a phrifysgolion

Dysgwch sut mae cymwysterau ymgeisydd yn cymharu â chymwysterau'r Deyrnas Unedig gan ddefnyddio **gwefan y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd**

Beth gall wneud i gynghorwyr gyrfaoedd

- Mae'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd yn eich helpu i esbonio cymwysterau'r Deyrnas Unedig i gleientiaid o wledydd eraill.
- Mae'n rhoi dealltwriaeth i gleientiaid o'r Deyrnas Unedig o'r mathau o swyddi neu gyrsiau y gallent fod yn gymwys i ymgeisio amdanynt dramor.

>>>

Sgiliau i Ewrop

Y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (parhâd)

Offer eraill a allai fod o ddiddordeb ichi:

Mae **Europass** yn bortffolio o ddogfennau sy'n disgrifio gwybodaeth a sgiliau unigolyn mewn modd sy'n ddealladwy ledled Ewrop. [Europass]

Mae'r **Sgiliau, Cymwyseddau a Galwedigaethau Ewropeaidd** yn rhestru'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael swyddi penodol yn Ewrop. [ESCO]

Mae'r **System Dysgu Anffurfiol a Dysgu Nad yw'n Ffurfiol** yn helpu i nodi ac asesu pob math o ddysgu.

Mae'r **System Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol** yn helpu i roi hyder y gellir ymddiried mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn Ewrop. [EQAVET]

Fframwaith yw'r **System Trosglwyddo Credyd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol** sy'n cefnogi a chydnabod elfennau o ddysgu sy'n digwydd yn ystod ymweliadau astudio a lleoliadau gwaith dramor. [ECVET]